Pecyn Dogfen Cyhoeddus

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Aelodau'r Cyngor Sir | Dyddiad: | 23 Ionawr 2015 |
| | | Rhif Union: | 01824 706204 |
| | | ebost: | dcc_admin@denbighshire.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod arbennig y **CYNGOR SIR, DYDD IAU, 29 IONAWR 2015** am **2.00 pm** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**AGENDA**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 TEYRNGED I'R CYNGHORYDD MARGARET MCCARROLL**

**3 DATGANIADAU O FUDDIANT** (Tudalennau 3 - 4)

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**4 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**5 CYNLLUN LLEIHAU TRETH Y CYNGOR 2015/15** (Tudalennau 5 - 8)

Ystyried adroddiad (copi ynghlwm) i fabwysiadu'r Cynlluniau Lleihau Treth y Cyngor a Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013, a Rheoliadau Diwygiadau i Ofynion Rhagnodedig (Cymru) 2015, o ran blwyddyn ariannol 2015/16.

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Y Cynghorydd Brian Blakeley (Cadeirydd)

Y Cynghorydd Gwyneth Kensler (Is-Gadeirydd)

Ian Armstrong
Raymond Bartley
Joan Butterfield
Jeanette Chamberlain-Jones
William Cowie
Ann Davies
James Davies
Meirick Davies
Richard Davies
Stuart Davies
Peter Duffy
Peter Arnold Evans
Hugh Evans
Bobby Feeley
Carys Guy
Huw Hilditch-Roberts
Martyn Holland
Colin Hughes
Rhys Hughes
Hugh Irving
Alice Jones
Huw Jones

Pat Jones
Geraint Lloyd-Williams
Jason McLellan
Barry Mellor
Win Mullen-James
Bob Murray
Peter Owen
Dewi Owens
Merfyn Parry
Paul Penlington
Arwel Roberts
Gareth Sandilands
David Simmons
Barbara Smith
David Smith
Bill Tasker
Julian Thompson-Hill
Joe Welch
Cefyn Williams
Cheryl Williams
Eryl Williams
Huw Williams

**COPIAU I'R:**

Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**

**Cod Ymddygiad Aelodau**

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

| | |
|---|---|
| Rwyf i,<br>(enw) | |
| *Aelod /Aelod cyfetholedig o<br>*(*dileuer un)* | **Cyngor Sir Ddinbych** |

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant *__personol / personol a sy'n rhagfarnu__ nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
*(*dileuer un)*

| | |
|---|---|
| Dyddiad Datgelu: | |
| Pwyllgor (nodwch): | |
| Agenda eitem | |
| Pwnc: | |
| Natur y Buddiant:<br>*(Gweler y nodyn isod)** | |
| Llofnod | |
| Dyddiad | |

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

**LOCAL GOVERNMENT ACT 2000**

**Code of Conduct for Members**

## DISCLOSURE AND REGISTRATION OF INTERESTS

| | |
|---|---|
| I, (*name*) | |
| a *member/co-opted member of<br>(*please delete as appropriate) | **Denbighshire County Council** |

**CONFIRM** that I have declared a ***personal / personal and prejudicial** interest not previously declared in accordance with the provisions of Part III of the Council's Code of Conduct for Members, in respect of the following:-
*(*please delete as appropriate)*

| | |
|---|---|
| Date of Disclosure: | |
| Committee (*please specify*): | |
| Agenda Item No. | |
| Subject Matter: | |
| Nature of Interest:<br>*(See the note below)** | |
| Signed | |
| Date | |

*Note: Please provide sufficient detail e.g. 'I am the owner of land adjacent to the application for planning permission made by Mr Jones', or 'My husband / wife is an employee of the company which has made an application for financial assistance'.

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor Llawn** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **29 Ionawr 2015** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill/ Paul McGrady** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Rod Urquhart** |
| **Teitl:** | **Cynllun Lleihau Treth y Cyngor 2015/16** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mabwysiadu'r Cynlluniau Lleihau Treth y Cyngor Cymru Gyfan a Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 a Chynlluniau Lleihau Treth y Cyngor Cymru Gyfan a Rheoliadau Diwygiadau Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2015.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae Deddf Diwygio Lles 2012 yn cynnwys darpariaethau i ddiddymu budd-dal treth gyngor yn ei ffurf bresennol ar draws y DU. O 31 Mawrth 2013 bydd budd-dal treth cyngor yn dod i ben ac mae'r cyfrifoldeb am ddarparu cefnogaeth ar gyfer y dreth gyngor a'r arian sy'n gysylltiedig ag ef, wedi cael ei basio i Lywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol yng Nghymru, wedi cyflwyno cynllun newydd i ddarparu cymorth y dreth gyngor a fabwysiadwyd gan y Cyngor ym mis Ionawr 2013.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cwblhau'r ddwy set o reoliadau ar 14 Ionawr, 2014 a Rheoliadau Cynlluniau Gostwng Treth y Cyngor newydd a Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013, a Rheoliadau diwygiadau 2015 sydd angen eu mabwysiadu erbyn 31 Ionawr 2015.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Yr aelodau i fabwysiadu'r Cynlluniau Lleihau Treth y Cyngor a Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013, a Rheoliadau Diwygiadau i Ofynion Rhagnodedig (Cymru) 2015, o ran blwyddyn ariannol 2015/16.

Bod y 3 elfen ddewisol o'r cynllun sydd wedi eu cymeradwyo gan yr aelodau, fel y dangosir yn adran 4.1, yn parhau yn 2015/16.

## 4. Manylion yr Adroddiad

### Y Cynllun Arfaethedig 2015/16

Wrth ystyried datblygu cynllun newydd ar gyfer 2015/16 fe gytunodd Llywodraeth Cymru y dylai'r cynllun diwygiedig arsylwi’r paramedrau canlynol:

- Parhau gydag un cynllun a ddiffinnir yn genedlaethol i ddarparu lefel gyson o gymorth i hawlwyr ar draws Cymru. Y lefel uchaf o gefnogaeth wedi ei osod ar 100%.
- I barhau i ddarparu nifer fach o elfennau dewisol, yn debyg i'r rhai sydd ar gael o dan y cynllun presennol, gan alluogi awdurdodau lleol i ymateb i'w hamgylchiadau lleol gwahanol (ar yr amod bod y costau o unrhyw amrywiad lleol yn cael eu hariannu yn lleol);
- Parhau i fod yn seiliedig ar ddiwygio'r system Budd-dal Treth y Cyngor blaenorol, tan 2016-17 fel bod y risgiau gweithredol yn cael eu rheoli ac y gellir parhau i ddarparu cymorth.
- Mân ddiwygiadau i adlewyrchu cyflwyno Absenoldeb Rhiant a Rennir a thâl rhieni statudol a rennir sy'n disodli cyfnod tadolaeth ychwanegol a thâl tadolaeth statudol ychwanegol o 5 Ebrill 2015. Darperir darpariaethau trosiannol hefyd ar gyfer y rhai sy'n cael tâl tadolaeth ar 1 Ebrill 2015.
- Caiff diwygiad ei gynnwys sy'n adlewyrchu newidiadau a wnaed i Reoliadau Budd-dal Tai i ddileu hawlogaeth awtomatig i Leihau Treth y Cyngor ar gyfer ceiswyr gwaith mewn Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE), sy'n gymwys ar hyn o bryd yn rhinwedd derbyn incwm Lwfans Ceisio Gwaith. Mae diwygiadau i’r Rheoliadau Codiadau yn cael gwared ar fynediad i CTRS ar gyfer ceiswyr gwaith AEE. Fodd bynnag, mae hyn ond yn berthnasol i'r rhai sy'n gwneud cais newydd am CTRS ar neu ar ôl 1 Ebrill 2015 neu sy'n stopio â bod yn gymwys i gael Lwfans Ceisio Gwaith sy’n seiliedig ar incwm am gyfnod ar ôl y dyddiad hwn, er enghraifft, os byddant yn mynd i mewn i gyflogaeth dros dro.
- Caiff mân ddiwygiadau canlyniadol hefyd eu gwneud mewn perthynas â diffiniadau ynghylch Lwfans Cyflogaeth a Chymorth a chyfeiriadau at Gredyd Cynhwysol. Nid yw Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n gysylltiedig ag incwm bellach yn cynnwys lwfansau cyfrannol sy’n seiliedig ar incwm ar wahân, yn hytrach dim ond lwfans cyfrannol a elwir yn 'lwfans cyflogaeth a chymorth'. Gwneir diwygiadau hefyd i fewnosod cyfeiriadau at Credyd Cynhwysol yn Rheoliadau 2013 lle mae cyfeiriadau eisoes at fudd-daliadau eraill sy'n gysylltiedig ag incwm.
- Bydd y ffigurau a ddefnyddir i gyfrifo hawl ymgeiswyr i leihau Treth y Cyngor yn cael eu huwchraddio yn unol â'r Budd-dal Tai, fel y nodwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)

### 4.1 Elfennau dewisol ar gyfer penderfyniad y Cyngor

a) Y gallu i gynyddu'r cyfnod talu estynedig safonol o 4 wythnos a roddir i bobl ar ôl iddynt ddychwelyd i'r gwaith os ydych wedi bod yn derbyn budd-dal cymwys perthnasol am o leiaf 26 wythnos

b) Disgresiwn i ddiystyru rhan neu'r swm cyfan o Bensiynau Anabledd Rhyfel a Phensiwn Rhyfel Gwraig Weddw wrth gyfrifo incwm.

c) Y gallu i ôl-ddyddio, hyd at 6 mis, unrhyw ddyfarniadau Cymorth Treth y Cyngor ar gyfer cwsmeriaid o oedran gweithio fwy na'r cyfnod safonol o 3 mis cyn y cais.

**4.2** Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymarfer ymgynghori ffurfiol ar y cynllun a'r newidiadau posibl presennol, gan ei alluogi i fod yn gost niwtral i Awdurdodau Lleol. Cafodd cynrychiolaeth ei wneud gan nifer o sefydliadau, gan gynnwys Cyngor Sir Ddinbych, gan awgrymu diwygiadau i'r cynllun.

Ar ôl ystyriaeth briodol, penderfynwyd parhau â'r cynllun fel y mae tan ar ôl etholiadau nesaf y cynulliad, gydag unrhyw ddiffyg rhwng y lleihad a roddir a'r grant penodol a dderbynnir, yn cael ei feddu gan yr Awdurdod Lleol.

Yn anffodus, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi penderfynu bod y lefelau cyllid ar gyfer y cynllun i aros ar lefelau 2013/14, a oedd yn creu pwysau cyllidebol yn 2014/15 ac yn parhau i wneud hynny yn 2015/16.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Bydd mabwysiadu'r cynllun hwn yn helpu pobl ddiamddiffyn, gan sicrhau eu bod yn byw mor annibynnol ag sy'n bosib.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Collwyd incwm grant trwy'r newidiadau i'r system Budd-daliadau Treth y Cyngor. Yn 2015/16, bydd y Cyngor yn derbyn cyllid o £9.167m ar gyfer Cymorth Treth y Cyngor gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, y gwariant presennol yw £9.5m, ac os byddai Sir Ddinbych yn cynyddu Treth y Cyngor o 3% ac y byddai'r Heddlu yn cynyddu Treth y Cyngor o 5%, y rhagolwg ar gyfer 2015/16 yw tua £9.8m. Mae hyn yn rhoi diffyg o tua £663k ar gyfer 2015/16.

Gall y diffyg hwn un ai gynyddu neu leihau yn dibynnu ar y lefelau o Dreth y Cyngor a godir ar gyfer 2015/16 a / neu unrhyw amrywiadau pellach ar lwyth achosion.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar lefel genedlaethol ar ei newidiadau arfaethedig i'r Cynllun Lleihau Treth y Cyngor.

**8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu cynnal gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**

Ddim yn berthnasol gan fod hyn yn ychwanegiad ar y cynllun presennol a ymgynghorwyd arno yn 2012.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nid oes gan y Cyngor unrhyw wir ddewis ond i fabwysiadu'r cynllun. Mae'n cynrychioli pwysau sylweddol ar gyllid y Cyngor. Mae cyllideb 2015/16 yn cynnwys rhagdybiaethau doeth ynghylch y costau.

## 10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae risgiau i'r Cyngor o beidio mabwysiadu'r cynllun hwn, o ganlyniad i hynny byddai'n rhaid i Gyngor Sir Ddinbych fabwysiadu'r cynllun diofyn, a all gynyddu'r gost.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

- Dylid mabwysiadu Cynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor a Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013.
- Rheoliadau Cynllun Lleihau Treth y Cyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013.
- Cynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor (Cynllun Gofynion Rhagnodedig a Diofyn (Cymru) (Diwygiad) 2015.

.